

Polisi Siarad Cymraeg

Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Tresimwm

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddai, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Bydd y cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor mewn egwyddor yn gweithredu a darparu'r gwasanaeth hyn yn Sain Nicolas a Thresimwm.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd fynegu eu barn a'u hanghenion yn eu iaith o'u dewis, gan alluogi i ddefnyddio eu dewis iaith mewn mater o arfer da yn hytrach na chonsesiwn a byddai gwrthod yr hawn honno yn gwallu rhoi aelodau o'r cyhoedd o dan anfantias gwirioneddol. Felly bydd y Cyngor yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith wrth ddelio â'r Cyngor.

Mewn perthynas â'r Cynllun hyn, nod y Cyngor Cymuned yw:

- Galluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor neu'n cyfrannu at y broses ddemorataidd i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl dewis personol.
- Annog defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Bydd y gwasanaethau a ddarperir, yn y Gymraeg neu'r Saesneg, o safon uchel ac yr un mor brydlon.

Bydd y Cynogr yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Ni fydd y gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at unrhyw oedi.

Bydd pob llythyr a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei ateb yn y Gymraeg.

Gan nad yw'r Clerc yn siarad Cymraeg, ni all y Cyngor ddelio â galwadau yn y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Fodd bynnag, pan fydd aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg, bydd y Clerc yn esbonio bod croeso i'r unigolyn barhau â'r alwad yn Saesneg neu danfon ei ymholiad yn ysgrifenedig yn y Gymraeg.

Pan ddaw swydd y Clerc yn wag yna bydd yn cael ei hysbysebu bod angen sgiliau dwyieithiog yn ddymunol fel y gall y Cyngor gynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd.

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn y Saesneg (gellir llogi siaradwr Cymraeg ar gyfer cyfarfodydd ar gais)

Bydd yr hysbysiad a'r Agenda ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yn y Saesneg (gofynnwch am gopiâu yn y Gymraeg)

Bydd y cofnodion yn y Saesneg (gofynnwch am gopi yn y Gymraeg)

Ni all y Cyngor ddarparu cyfarfodydd wyneb yn wyneb ag aelodau o'r cyhoedd yn y Gymraeg. Fodd bynnag, pan fydd aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â'r Cyngor sy'n dymuno siarad Cymraeg, bydd y Clerc yn esbonio'r sefyllfa'n gwrtais ac yn cynnig cyfle i'r unigolyn drafod y mater yn y Saesneg neu anfon ei ymholiad yn ysgrifenedig yn y Gymraeg.

Bydd cyhoeddiadau a wneir ar y rhyngwyd ar ran y Cyngor yn y Saesneg.

Bydd enw'r Cyngor Cymuned yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cafodd y cynllun hwn gefnogaeth lawn y Cyngor Cymunedol, a bydd y Clerc, yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd o fewn y Cyngor. Clerc y Cyngor fydd yn gyfrifol am fonitro'r Cynllun.

Bydd y Cyngor yn gwahodd trigolion lleol sy'n gallu'r iaith i gynnig eu barn am y Cynllun a sut y gellid ei wella. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau ynglŷn â'r Cynllun at:

Naomi McGarrigle, Clerk of the Council, 2 Maes Illtuds, Pentre'r Cwrt, Llantwit Major, CF61 2SD

Bydd y Cyngor yn adolygu cynnwys y Cynllun hwn bob 3 blynedd.